CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

RHEOLAU'R FYNWENT

Gofynnir yn garedig i bawb gydymffurfio â'r rheolau a ganlyn a luniwyd er hwylustod i bawb sy'n ymwneud â'r fynwent, yn arbennig y teuluoedd sydd â rhywun annwyl iddynt ynddi. Diolchir ymlaen llaw i bawb am gydymffurfio â'r isod.

Clerc y Cyngor neu berson a benodir i fod yn Arolygydd y Fynwent sydd â'r awdurdod i weithredu'r rheolau. Hefyd, gweithreda'r Clerc fel Trysorydd a pharatoi adroddiad ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol. Pob taliad i'w wneud drwy'r Clerc.

Dylid rhoi o leiaf wyth awr a deugain (48 awr) o rybudd i'r Arolygydd ynglŷn â'r angen i gladdu yn y fynwent. Daw ei ddyletswyddau i ben am chwech o'r gloch bob nos Wener ac ailddechreua ei waith am wyth o'r gloch fore Llun. Golyga hyn na chysyllta ymgymerwr â'r Arolygydd dros y penwythnos. Nid oes gan yr ymgymerwr hawl cysylltu â'r torrwr beddi cyn derbyn caniatâd gan yr Arolygydd.

BEDDAU

1. Ni ddylid amgylchynu llain bedd newydd mewn unrhyw fodd.

2. Ni werthir llain os na fydd angen ei agor yn syth ac ni ddylid agor bedd fwy na thri diwrnod cyn claddedigaeth.

3. Maint beddrod yw wyth troedfedd o hyd, pedair o led ac wyth troedfedd o ddyfnder (8' x 4' x 8'). Bydd angen sicrhau union siâp/fesur yr arch.

4. Yr ymgymerwr fydd yn gyfrifol am holl waith y bedd, nid y Cyngor.

5. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw niwed a achosir gan drydydd person.

6. Ni chaniateir palu'r tir na phlannu unrhyw blanhgion nac ychwaith osod teganau, addurniadau na phlanhigion ar y gwair.

7. Ni chaniateir defnyddio chwynladdwr.

8. Mae'n ofynnol gwneud yr adeiladwaith priodol o fewn y bedd megis blociau/briciau ar hyd yr ochrau, gan gau drosto â slabiau rhag i'r tir suddo'n ormodol wedyn.

9. Dylid claddu llwch yn y man arbennig a ddynodir ar ei gyfer gan y Cyngor. Dylai'r bedd fod yn mesur llathen sgwâr, dwy droedfedd o ddyfnder â lle i uchafswm o bedair cist llwch.

10. Cyfrifoldeb y sawl sydd â'r hawl i gladdu yno neu ei gynrychiolydd fydd cadw at reolau ac urddas y fynwent.

CLADDU

1. Bydd angen anfon rhybudd o gladdedigaeth at Glerc y Cyngor yn y cyfeiriad isod o leiaf dri diwrnod cyn y gladdedigaeth, ar wahân i achosion brys â thystysgrif meddygol. Mewn achosion o'r math yma yn unig y derbynnir rhybudd ar y Sul.

2. Yn dilyn derbyn caniatâd claddu gan y Clerc, dylai'r ymgymerwr gysylltu'n uniongyrchol â G.D. Roberts a'i Fab, Pwllheli (torrwr beddau swyddogol y Cyngor) – Ffôn: (01758) 701107 – i drefnu torri/ailagor bedd.

3. Ni ddylid claddu cyn deg o'r gloch y bore nac ar ôl pump o'r gloch yr hwyr, oni bai bod amgylchiadau yn galw am hynny. Rhaid cael caniatâd arbennig i gladdu ar y Sul.

4. Cyfrifoldeb y torrwr beddau yw sicrhau y cedwir y rhesi beddi mor syth â phosibl.

GOSOD PENFEINI

1. Ni chaniateir naddu na thrwsio penfeini tu mewn i'r fynwent a bydd rhaid cludo pob deunydd at fedd neu gofadail oddi yno rhag niweidio'r beddau.

2. Bydd gofyn anfon cynllun a disgrifiad o bob penfaen at y Clerc er mwyn i'r Cyngor ei ystyried. Ni ddylid gosod unrhyw benfaen heb, yn gyntaf, i'r Cyngor dderbyn ei chynllun. Dylid cyfyngu mesuriadau pob penfaen i ddwy droedfedd chwe modfedd o uchder a dwy droedfedd tair modfedd o led (2' 6" x 2' 3").

3. Rhaid rhoi rodau drwy'r cerrig beddi i lawr drwy'r fflagen i'r ddaear.

4. Dymuna'r Cyngor ei wneud yn gwbl glir mai cyfrifoldeb y teulu yw diogelwch y garreg a osodir ar fedd. Ceidw'r Cyngor yr hawl i fod â'r penderfyniad terfynol os yw carreg fedd yn ddiogel a phe nad ystyrid hi'n ddiogel yna, gall y Cyngor gymryd camau priodol megis ei gosod ar ei chefn er sicrhau diogelwch defnyddwyr eraill y fynwent.

5. Disgwylir i'r ymgymerwyr aros o leiaf **wyth mis** ar ôl claddu cyn gosod carreg fedd.

CYFFREDINOL

1. Cedwir cofrestr y fynwent gan y Clerc a gellir ei gweld a chael copi ohoni am dâl o £15.00.

2. Ceidw'r Cyngor yr hawl i adolygu'r rheolau a'r ffïoedd yn flynyddol. Gweithredir y fynwent yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn ogystal ag unrhyw orchymyn a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

3. Rhaid i blant fod dan ofalaeth oedolyn cyfrifol.

4. Ni chaniateir cŵn ar wahân i rai tywys.

5. Rhoddir copi o'r Rheolau i'r ymgymerwyr i'w rhoi i'r teulu.

Mabwysiadwyd: **Rhagfyr 13eg, 2011**

Adolygwyd a Diweddarwyd: **Gorffennaf 2017**

EINIR WYN, Clerc Cyngor Cymuned Llanengan, Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT Ffôn: (01758) 712434; E-bost: caedu@dialstart.net